**Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol**

## CYLCH GORCHWYL

### 1. Nodau

Pwrpas y Pwyllgor Cyswllt yw rhoi strwythur a ffocws i'r berthynas rhwng yr awdurdod lleol, y GIG a'r trydydd sector yn Ynys Môn. Bydd y Pwyllgor yn:

1.1 Datblygu, gweithredu, monitro ac adolygu'r Compact
1.2 Cynhyrchu Cynllun Gweithredu ar gyfer y Compact sy'n nodi amcanion a thargedau
1.3 Monitro ac adolygu'r Cynllun Gweithredu bob blwyddyn
1.4 Sicrhau bod y Codau Ymarfer a nodir yn y Compact yn cael eu datblygu
1.5 Sicrhau bod y Codau Ymarfer yn cael eu gweithredu a monitro eu heffeithiolrwydd
1.6 Darparu fforwm ar gyfer ymchwilio i faterion o bryder cyd-rhwng y naill a'r llall
1.7 Adrodd ar gynnydd i Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn, i'r trydydd sector trwy Medrwn Môn ac i'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol
1.8 Adrodd i'r cyrff statudol lleol sy'n atebol ac i Medrwn Môn trwy gyflwyno adroddiad blynyddol ar gynnydd

### 2. Aelodaeth

**CSYM**
5

**GIG**
1

**Trydydd Sector**
5 o gynrychiolwyr etholedig

**Sylwedydd**
Cynrychiolydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

**Dirprwyon**
Caniateir dirprwyon gyda chytundeb y Cadeirydd

### 3. Cworwm

Y cworwm yw o leiaf dau gynrychiolydd o'r Cyngor Sir, a dau o'r Sector Gwirfoddol.

Os nad oes cworwm ar gyfer cyfarfod caiff ei ail-gynnal cyn pen 28 diwrnod. Oni fydd cworwm yn y cyfarfod hwnnw 'chwaith byddai'r cyfarfod yn mynd yn ei flaen fel pe bai ganddo gworwm.

4. **Datganiadau o Ddiddordeb**

   Rhaid i bob aelod o'r Bwrdd ddatgan unrhyw ddiddordeb sy'n ymwneud ag eitemau penodol ar y rhaglen a gadael y cyfarfod pan fo'r eitemau hynny'n cael sylw

5. **Cadeiryddiaeth ac Ysgrifenyddiaeth**

   Bydd Cadeiryddiaeth y Bwrdd Compact yn newid bob blwyddyn. Bydd un aelod o'r tri chorff a gynrychiolir ar y Bwrdd yn cadeirio yn eu tro.

   Gwasanaethir y Bwrdd ar y cyd gan swyddogion Medrwn Môn, y GIG a CSYM. Medrwn Môn fydd yn gyfrifol am wasanaethu a chefnogi cynrychiolwyr y trydydd sector.

6. **Amlder Cyfarfodydd**

   Bydd y Bwrdd yn penderfynu amlder ei gyfarfodydd ond fel arfer bydd y Grŵp yn cwrdd o leiaf 4 gwaith bob blwyddyn.

7. **Cyfethol**

   Gall y bwrdd gyfethol aelodau fel y gwêl yn ddoeth. Rhaid cael cytundeb llawn aelodau'r Bwrdd ar gyfer aelodau cyfetholedig o'r fath.

8. **Adolygiad**

   Adolygir cylch gorchwyl ac aelodaeth y Bwrdd bob blwyddyn neu'n amlach os bydd angen.

**ATODIAD**

**Rhestr o Aelodau**

**CSYM**
**GIG**
**Trydydd Sector**